**Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd NWR 03-00(agd)**

## Agenda

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener 14 Ebrill 2000 |
| **Amser:** | 10.00am - 12.30pm |
| **Lleoliad:** | Y Siambr, Swyddfeydd y Sir, Llangefni |

**Cyflwyniad ac ymddiheuriadau**

**Eitem 1: Amgylchedd y Gogledd** (10.00am - 11.30am)

Bydd y Pwyllgor yn gwrando ar gyflwyniad gan Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth ar gyflwr yr amgylchedd yng Nghymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar Ogledd Cymru, cyn symud ymlaen at gwestiynau a thrafodaeth. Bydd y cyhoedd yn cael cyfle i gyfrannu at y drafodaeth.

| | |
|---|---|
| **Papurau:** | Dylai aelodau gyfeirio at:<br>'Amgylchedd Gweithredol i Gymru' - Asiantaeth yr Amgylchedd ac<br>'Amgylchedd Iach i Gymru' cyhoeddiad ar y cyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth |
| **Yn bresennol:** | *Asiantaeth yr Amgylchedd*<br>Frank Jones, Swyddog Cynaliadwyedd Cymru<br>Roger Fisher, Rheolwr Cynllunio'r Amgylchedd, Ardal y Gogledd<br><br>*Cyngor Cefn Gwlad Cymru*<br>John Lloyd Jones, Cadeirydd<br>Malcolm Smith, Uwch Gyfarwyddwr<br>John Ratcliffe, Arweinydd Tîm, Ardal Ynys Môn |

| | |
|---|---|
| | *Y Comisiwn Coedwigaeth*<br>Ruth Jenkins, Swyddog yr Amgylchedd<br>Huw Davies, Swyddog Polisi<br>Peter Garson, Gwarchodwr Gogledd Cymru |

*Egwyl rhwng 11.30am a 11.45am*

**Eitem 2: Cyfeiriadau post ar Ynys Môn** (11.45am - 12.00pm)

Bydd y Pwyllgor yn trafod defnyddio "Gwynedd" yn hytrach nag "Ynys Môn" ar gyfer cyfeiriadau post ar yr ynys.

| | |
|---|---|
| **Papurau:** | Llythyr dyddiedig 31 Ionawr 2000 oddi wrth Geraint Edwards, Rheolwr Gyfarwyddwr, Cyngor Sir Ynys Môn at Gareth Jones AC |

**Eitem 3: Sesiwn microffon agored** (12.00 – 12.25pm)

Bydd y cyhoedd yn cael cyfle i godi materion sy'n achosi pryder iddynt.

**Eitem 4: Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol** (12.25pm - 12.30pm)

Gwahoddir y Pwyllgor i gytuno ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2000.

| | |
|---|---|
| **Papurau:** | NWR 02-00(min) |